OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2025 Rhif 388 (Cy. 77)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2025

# 2025 No. 388 (W. 77)

# SOCIAL CARE, WALES

## The Partnership Arrangements (Wales) (Amendment) Regulations 2025

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4), ac maent yn diwygio Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1989 (Cy. 299)) ("y prif Reoliadau").

Mae'r diwygiadau'n gwneud newidiadau i reoliad 19 o'r prif Reoliadau (sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun) i alluogi cyrff partneriaeth i arfer mwy o hyblygrwydd yn y ffordd y maent yn cyfuno cronfeydd wrth arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â llety cartref gofal i bobl hŷn.

Bydd yn ofynnol o hyd i gyrff partneriaeth gynnal a chyfuno cronfeydd wrth arfer y swyddogaethau hyn, ond ni fydd yn ofynnol mwyach iddynt wneud hynny ar sail ranbarthol (o dan drefniadau gyda'r holl gyrff partneriaeth eraill ar gyfer ardal y bwrdd partneriaeth rhanbarthol).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

**EXPLANATORY NOTE**

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations are made under the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (anaw 4), and they amend the Partnership Arrangements (Wales) Regulations 2015 (S.I. 2015/1989 (W. 299)) ("the principal Regulations").

The amendments make changes to regulation 19 of the principal Regulations (establishment and maintenance of pooled funds) to enable partnership bodies to exercise greater flexibility in the way that they pool funds in the exercise of their functions in relation to care home accommodation for older people.

Partnership bodies will continue to be required to maintain and pool funds when exercising these functions, but will no longer be required to do so on a regional basis (under arrangements with all the other partnership bodies for the regional partnership board area).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has not been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 388 (Cy. 77)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *26 Mawrth 2025* |
| *Yn dod i rym* | *31 Mawrth 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 167(3)(a), (b) a (d), a 196(2)(a) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru o dan adran 196(6)(a) o'r Ddeddf honno ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**2**).

**Enwi, dod i rym a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Mawrth 2025.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" yw Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015(**3**).

(**1**) 2014 dccc 4 ("y Ddeddf"). *Gweler* adran 197(1) o'r Ddeddf am y diffiniad o "penodedig", "a bennir" ac "a bennwyd", a "rheoliadau".

(**2**) Mae cyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn adran 196(6)(a) o'r Ddeddf bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) O.S. 2015/1989 (Cy. 299) ("y prif Reoliadau").

W E L S H  S T A T U T O R Y
I N S T R U M E N T S

# 2025 No. 388 (W. 77)

# SOCIAL CARE, WALES

## The Partnership Arrangements (Wales) (Amendment) Regulations 2025

| | |
|---|---|
| *Made* | *26 March 2025* |
| *Coming into force* | *31 March 2025* |

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 167(3)(a), (b) and (d), and 196(2)(a) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014(**1**), make the following Regulations.

A draft of these Regulations was laid before Senedd Cymru under section 196(6)(a) of that Act and has been approved by resolution of Senedd Cymru(**2**).

**Title, coming into force and interpretation**

**1.**—(1) The title of these Regulations is the Partnership Arrangements (Wales) (Amendment) Regulations 2025.

(2) These Regulations come into force on 31 March 2025.

(3) In these Regulations, "the principal Regulations" means the Partnership Arrangements (Wales) Regulations 2015(**3**).

(**1**) 2014 anaw 4 ("the Act"). *See* section 197(1) of the Act for the definition of "specified" and "regulations".

(**2**) References to the National Assembly for Wales in section 196(6)(a) of the Act now have effect as references to Senedd Cymru, by virtue of section 150A(2) of the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(**3**) S.I. 2015/1989 (W. 299) ("the principal Regulations").

**Diwygio rheoliad 19 o'r prif Reoliadau**

**2.**—(1) Mae rheoliad 19 o'r prif Reoliadau (sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun)(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff (1)(a) hepgorer "ranbarthol".

(3) Hepgorer paragraff (2).

**Amendment to regulation 19 of the principal Regulations**

**2.**—(1) Regulation 19 of the principal Regulations (establishment and maintenance of pooled funds)(**1**) is amended as follows.

(2) In paragraph (1)(a) omit "regional".

(3) Omit paragraph (2).

*Dawn Bowden*

Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
26 Mawrth 2025

Minister for Children and Social Care under authority of the Cabinet Secretary for Health and Social Care, one of the Welsh Ministers
26 March 2025

©ⓑHawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) Amnewidiwyd rheoliad 19 o'r prif Reoliadau gan O.S. 2019/760 (Cy. 143); mae offerynnau diwygio eraill, ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol. Mae i "cronfeydd cyfun" yr un ystyr ag yn adran 167(4) o'r Ddeddf.

(**1**) Regulation 19 of the principal Regulations was substituted by S.I. 2019/760 (W. 143); there are other amending instruments, but none is relevant. "Pooled funds" has the same meaning as in section 167(4) of the Act.

ISBN 978-0-348-39680-5

£5.78

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2025/388